



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Bethshan Sheltered Sheltered Housing

**Heol Treowen
Y Drenewydd
SY16 1JA**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/06/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Bethshan Sheltered Housing Association

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Bethshan Sheltered Housing Association
Lleoedd cofrestredig	40
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	22 Rhagfyr 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried y themâu gofal a chymorth, yr amgylchedd nac arwain a rheoli yn fanwl. Gwnaethom ganolbwyntio ar yr hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sy'n adnabod y bobl y maent yn rhoi cefnogaeth iddynt yn dda. Maent yn garedig ac yn dangos parch. Mae canlyniadau'r bobl wedi gwella oherwydd y newidiadau cadarnhaol a wnaed i ansawdd y bwyd a'r ffordd y caiff ei gyflwyno. Mae gan y staff fynediad at gofnodion gofal, er mwyn iddynt wybod sut mae'r bobl am gael cefnogaeth. Mae gwelliannau'n parhau i gael eu gwneud i sicrhau y gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae gwell goruchwyliaeth o'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn dangos ymrwymiad i wella'r gwasanaeth i'r bobl. Maent yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a godwyd yn yr arolygiad diwethaf er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r bobl.

Llesiant

Mae gan y bobl ddewis mewn meysydd gan gynnwys beth maen nhw'n ei fwyta a'i yfed, ble maen nhw'n treulio eu diwrnod a pha weithgareddau, os o gwbl, maen nhw eisiau cymryd rhan ynddynt. Gall y bobl ymuno â gweithgareddau grŵp neu wneud pethau y maent yn hoffi eu gwneud ar sail un-i-un gyda chymorth y cydlynwyr gweithgareddau. Mae'r gwasanaeth bwyd wedi gwella, a gall y bobl ddewis beth maen nhw eisiau i'w fwyta a ble maen nhw eisiau bwyta eu prydau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach i wneud yr ystafell fwyta yn fwy deniadol i'r bobl wella eu profiad bwyta ymhellach.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo iechyd meddwl ac iechyd corfforol y bobl. Mae'r staff yn gymwys wrth ddefnyddio'r system cofnodion gofal electronig newydd sy'n golygu eu bod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am ofal y bobl pan fydd ei hangen arnynt. Fodd bynnag, mae'r staff yn dweud wrthym fod diweddarau'r cofnodion yn cymryd llawer o amser ac yn aml yn eu hatal rhag treulio amser gyda'r bobl. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynlluniau personol ac adolygu eu canlyniadau personol. Mae arsylwadau yn dangos bod y staff yn garedig wrth y bobl ac yn parchu penderfyniadau a wnânt.

Mae prosesau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Gofynnir i'r bobl arwyddo i mewn ac allan o'r cartref. Mae gan y staff fynediad at wybodaeth yn electronig, fel eu bod yn gwybod am risgiau i les y bobl a sut i reoli hyn. Mae ganddynt hyfforddiant i gefnogi'r bobl sydd mewn perygl o dagu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi nodi, drwy ei arolygiaeth, yr angen i atgyfnerthu'r broses o adrodd am bryderon a diogelu fel y gellir cymryd camau mewn modd amserol.

Mae'r darparwr yn parhau i wneud gwelliannau i'r amgylchedd i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Yn yr arolygiad diwethaf, gwnaethom gyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth am nad oedd y darparwr yn sicrhau bod anghenion dietegol y bobl yn cael eu diwallu. Yn ystod yr ymweliad hwn, gwelsom fod canlyniadau i'r bobl wedi gwella. Mae cwmni allanol yn dal i ddarparu'r arlwygo. Fodd bynnag, mae'r oriau y mae'r cogyddion yn eu gweithio yn cael eu hymestyn i gynnwys pob prif bryd bwyd gan gynnwys amser te. Mae hyn yn golygu bod y bwyd yn fwy ffres ar gyfer pob pryd. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff y siaradwyd â nhw yn cadarnhau bod ansawdd a chyflwyniad y bwyd wedi gwella. Gwelsom hyn yn ystod ein hymweliad. Mae hyn yn cynnwys bwyd i'r bobl yr aseswyd bod angen diet meddal neu biwrî arnynt. Mae'r staff gofal yn dweud wrthym fod y bobl yn bwyta mwy, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae llai o bobl yn colli pwysau am eu bod yn mwynhau'r bwyd. Mae mwy o ddewis. Gofynnir i'r bobl beth yr hoffent ei fwyta. Mae sylwadau am y bwyd yn cynnwys *"breakfast choice is excellent," "It's a real treat" a "marvellous"*.

Dyweddodd y staff wrthym y gall y bobl gael eu prydau bwyd ble bynnag y maent eisiau. Gwelsom y bobl yn bwyta yn eu hystafelloedd gwely a'r ystafell fwyta. Roedd grŵp o'r bobl yn bwyta yn yr ardal grefftau er mwyn iddynt allu parhau i gymdeithasu yn dilyn eu gweithgaredd boreol.

Buom yn siarad â'r staff am eu gwybodaeth am gefnogi'r bobl ar ddietau amrywiol gan gynnwys meddal neu biwrî. Mae'r staff, gan gynnwys y staff asiantaeth, yn cadarnhau eu bod wedi cael yr hyfforddiant hwn. Mae ganddynt fynediad at wybodaeth am anghenion dietegol y bobl ar eu dyfeisiau a ddelir â llaw, sy'n ran o'r system gofal electronig. Maent yn gweld hyn yn arbennig o dda a gallant wirio anghenion y bobl yn gyflym.

Fodd bynnag, mae angen gwella'r profiad prydau bwyd ymhellach. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cydnabod hyn. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd y byrddau bwyta wedi'u paratoi'n braf ar gyfer y bobl ac nid oedd yr ystafell fwyta yn ddeniadol i wneud i'r bobl fod yn awyddus i eistedd a mwynhau pryd o fwyd. Pan ddaeth y bwyd i fyny o'r gegin, nid oedd platiau wedi'u hanfon i fyny. Treuliodd y staff beth amser yn ceisio dod o hyd i blatiau er mwyn gallu gweini'r bwyd. Arhosodd y bwyd yn boeth. Roedd un person yn hwyr at y bwrdd, felly cynhesodd y staff ei fwyd yn y microdon. Nid oedd y fwydlen sy'n cynnwys dewisiadau bwyd i'r bobl ac unrhyw anghenion dietegol wedi dod i fyny o'r gegin gyda'r bwyd, felly nid oedd y staff yn gwybod beth roedd y bobl wedi'i archebu. Gweithiodd y staff yn galed iawn i wneud i'r gwasanaeth prydau fynd mor llyfn â phosibl heb fawr o effaith ar y bobl. Rydym wedi trafod y mater â'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r angen i ddibynnu'n helaeth ar gogyddion

asiantaeth yn golygu nad oes dull cyson bob amser. Er bod canlyniadau i'r bobl wedi gwella, rhaid i'r darparwr sicrhau bod gwelliannau pellach a gynllunnir yn cael eu gweithredu a bod gwelliannau a wnaed eisoes yn cael eu cynnal. Caiff hyn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r staff gofal yn defnyddio'r system cynllunio gofal electronig newydd. Dywed y staff wrthym ei bod yn system dda a bod ganddynt fynediad at gofnodion y bobl ar unwaith. Fodd bynnag, dywedodd y staff nyrsio ei bod yn cymryd amser i fewnbynnu gwybodaeth a chynnal adolygiadau rheolaidd o'r dogfennau. Buom yn trafod sicrhau bod y bobl yn cael eu cynnwys wrth gynllunio ac adolygu eu gofal. Codwyd maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf a chaiff ei ystyried yn llawn yn yr arolygiad nesaf.

Darperir gweithgareddau ar ddwy uned y cartref. Roedd y bobl yn gwneud hufen iâ siocled ar un uned tra bod eraill yn creu murlun ar y wal. Roedd y siop trin gwallt yn darparu gwasanaeth i'r bobl a oedd ei eisiau. Gwnaethom siarad â swyddogion y ddau weithgaredd. Siaradodd y ddau yn frwdfrydig am eu rôl. Fe wnaethon nhw ddangos potiau blodau i ni yr oedd y bobl wedi cymryd rhan yn eu plannu a dweud wrthym am y sesiynau cerddoriaeth a gynhelir yn wythnosol y mae'r bobl yn eu mwynhau. Mae gweithgaredd un i un yn cael ei gynnal yn ystafelloedd y bobl. Roedd un person wedi gwneud cais i wneud blodau haul yn ei ystafell a oedd yn mynd i ddigwydd yn nes ymlaen yn y dydd. Codwyd maes i'w wella mewn perthynas â gweithgareddau yn yr arolygiad diwethaf, a bydd hyn yn cael ei ddilyn i fyny yn yr arolygiad llawn nesaf.

Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cael ei wella. Gwelsom loriau newydd yn cael eu gosod mewn rhai ystafelloedd gwely yn ystod ein hymweliad. Roedd dodrefn newydd yn y cyntedd yn barod i'w gosod yn y rhannau cywir o'r cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn dweud wrthym fod dodrefn ystafell fwyta newydd wedi'u harchebu. Mae'r ystafelloedd gwely a welsom wedi'u personoli gydag eitemau sy'n bwysig i'r bobl. Yn yr arolygiad diwethaf, gwnaethom godi maes i'w wella yn ymwneud â'r amgylchedd. Caiff hyn ei ystyried yn yr arolygiad llawn nesaf.

Mae mynediad i'r cartref ac oddi yno yn cael ei fonitro. Gofynnir i ni a'r bobl eraill arwyddo i mewn ac allan o'r adeilad.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r cartref yn dda. Mae'n ymweld yn aml ac yn siarad â'r bobl sy'n byw yno a'r staff. Dywedodd wrthym fod ganddo ffocws ar gyfer ei ymweliadau gyda'r olaf yn canolbwyntio ar weithgareddau. Mae'r staff yn dweud wrthym ei fod yn weladwy yn y cartref a gallant fynd ato i siarad ag ef os oes angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adroddiad misol i'r ymddiriedolwyr sy'n cynnwys cynnydd ar welliannau a godwyd yn yr arolygiad diwethaf. Codwyd meysydd i'w gwella yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr arolygiad diwethaf a chânt eu hystyried ymhellach yn yr arolygiad llawn nesaf.

Gall lefelau staffio amrywio yn y cartref. Mae'r rheolwyr yn ceisio sicrhau bod pob shiftt wedi'i llenwi. Mae dibyniaeth fawr ar y staff asiantaeth. Dywed yr Unigolyn Cyfrifol na allai'r cartref weithredu heb ddefnyddio asiantaeth. Mae recriwtio'r staff parhaol yn barhaus ond yn anodd. Mae hwn yn fater ledled y wlad. Mae'r staff asiantaeth y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y staff parhaol. Mae ganddynt fynediad at wybodaeth bersonol y bobl, fel eu bod yn gwybod sut mae'r bobl eisiau cael eu cefnogi. Maent yn cael hyfforddiant gan gynnwys sut i gefnogi'r bobl ag anawsterau llyncu. Mae'r staff yn dweud wrthym fod y rheolwyr yn hawdd siarad â nhw ac yn gwneud eu gorau i sicrhau bod pob shiftt yn cael ei llenwi. Maent yn dweud wrthym eu bod bob amser ar gael i siarad â nhw pe bai ganddynt unrhyw broblemau.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
21	Nid yw'r darparwr yn sicrhau y caiff anghenion deietegol y bobl eu diwallu yn unol ag arferion da.	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
35	Nid yw'r darparwr yn sicrhau bod arferion cyn cyflogi yn gadarn.	Adolygwyd
44	Mae angen diweddarau, newid a gwneud gwaith cynnal a chadw i'r safle, ei addurniadau, y dodrefn a'r gosodiadau.	Adolygwyd
19	Nid yw'r canllaw i'r gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.	Adolygwyd
79	Nid yw'r polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth gyfredol.	Adolygwyd
73	Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r cartref yn 2022 nac wedi paratoi adroddiad ar y canfyddiadau.	Adolygwyd
80	Nid oes mesurau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.	Adolygwyd
7	Nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.	Adolygwyd
36	Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y staff yn cael yr holl sesiynau goruchwyllo ac arfarnu a'r hyfforddiant angenrheidiol.	Adolygwyd
15	Ni chaiff y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg eu cwblhau bob amser ac nid yw'r darparwr yn cynnwys y bobl a'u perthnasau yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.	Adolygwyd
18	Nid yw'r darparwr yn cwblhau asesiad o anghenion y bobl o fewn saith diwrnod iddynt gael eu derbyn.	Adolygwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 20/07/2023